

Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngheredigion



Cynnwys

Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?	3
Beth sy'n newydd am y rhaglen hon?	5
Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)	
Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF)	7
Trosolwg o'r Pecynnau Gwasanaeth	10
Pecyn Cymorth i Deuluoedd	12
Pecyn Gwybodaeth a Chyfathrebu	16
Pecyn Gwasanaethau Cynhwysol	18
Ffyrdd newydd o weithio	21
Cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill	23
Manylion Cyswllt	28

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer ymarferwyr, a'u rheolwyr, sy'n ymwneud ag amddiffyn, diogelwch, iechyd, addysg a lles cymdeithasol plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Ngheredigion (gan gynnwys sefydliadau o'r sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector).

Fersiwn Terfynol Hydref 2013

Mae'r llyfryn hyn yn seiliedig ar fersiwn Cyngor Caerdydd "Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngaerdydd". Mae wedi cael ei gynhyrchu gyda eu caniatâd.

Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?



Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu datblygiad cymorth a systemau aml-asiantaeth effeithiol ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn sefyllfa o dlodi. Ariannir y rhaglen gan grant sy'n werth £3.5 miliwn, y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfran ohono i Geredigion, er mwyn cynorthwyo'r gwaith cyflawni rhwng 2012 a 2017. Fe'i cynlluniwyd i adnabod anghenion penodol gwahanol deuluoedd a'r gofynion cyffredin i asiantaethau lluosog i ddarparu pecynnau cymorth holistig ac integredig.

Mae canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf yn pennu pedwar canlyniad lefel uchel y mae'n rhaid i'r rhaglen gynorthwyo i'w cyflawni:

- Helpu pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel i sicrhau cyflogaeth a cynnydd o fewn cyflogaeth
- Grymuso plant, pobl ifanc a theuluoedd, y maent yn byw mewn sefyllfa o dlodi neu mewn perygl o wynebu tlodi, i wireddu eu potensial
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ddiogel a'u bod yn mwynhau lles
- Grymuso teuluoedd i fod yn hyderus, i feithrin ac i fod yn gryf

Mae'r rhaglen yn ystyried sawl egwyddor allweddol wrth gyflawni'r gwasanaeth hwn:

- Datblygiad model Tîm o amgylch y Teulu
- Datblygiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF)
- Datblygiad set gydlynol o brosiectau neu wasanaethau wedi'u comisiynu mewn ffordd strategol, y maent yn rhwym i gyfyngiad amser ac y maent yn canolbwyntio ar deuluoedd
- Ymrwymiad i ddysgu ar y cyd ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Ffocws arbennig ar ddarparu ar gyfer anghenion penodol teuluoedd sy'n cynnwys plant a phobl ifanc anabl

Yng Ngheredigion, comisiynwyd 3 phecyn gwasanaeth mewn ffordd strategol er mwyn cyflawni dull gweithredu ymyrraeth gynnar ac er mwyn cynorthwyo proses Tîm o amgylch y Teulu:

- ◆ Cymorth i Deuluoedd
- ◆ Gwybodaeth a Chyfathrebu
- ◆ Gwasanaethau Cynhwysol

Mae'r rhain yn feysydd cymhleth ac y maent yn gorgyffwrdd, ac efallai y bydd angen cymorth aml-asiantaeth ar rai teuluoedd sy'n croesi terfynau pob pecyn. Bydd angen i ddarparwyr ar draws y rhaglen gyfan gydweithio (a gyda darparwyr nad ydynt yn ddarparwyr Teuluoedd yn Gyntaf) er mwyn bodloni anghenion y teuluoedd hyn.

Law yn llawn gyda'r gwasanaethau hyn a gomisiynir, mae Ceredigion wedi datblygu model Tîm o amgylch y Teulu, a fydd yn cael ei ddarparu ar draws y sir. Mae Asesiad Teuluol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ac y mae wedi cael ei seilio ar gryfderau (JAFF) yn cynorthwyo'r gwaith hwn.

Beth sy'n newydd am y
Rhaglen hon?



Beth sy'n newydd am y Rhaglen hon?

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn disodli rhaglen grantiau Cymorth, a gynhaliwyd rhwng 2003 a 2011. Ceir gwahaniaethau allweddol rhwng y rhaglen hon a rhaglen Cymorth, o ran ei strwythur a'i nodau, sef ei bod:

Yn canolbwyntio ar y teulu - yn mabwysiadu dull gweithredu teulu cyfan tuag at wella canlyniadau.

Yn bwrpasol - gan deilwra help yn unol ag amgylchiadau teuluoedd unigol.

Yn integredig - gan gynnwys gwaith effeithiol i gydlyn gwaith cynllunio a darparu gwasanaeth ar draws sefydliadau, gan sicrhau bod asesu anghenion a chyflawni yn cael eu rheoli ar y cyd, a bod dilyniant di-dor ar gyfer teuluoedd rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni.


Yn rhagweithiol - ceisio adnabod yn gynnar a sicrhau ymyrraeth briodol i deuluoedd.

Yn ddwys - gyda dull gweithredu cadarn a ffocws diwro, gan addasu i amgylchiadau teuluoedd sy'n newid.

Yn lleol - nodi anghenion cymunedau lleol a datblygu trefniadau priodol er mwyn cyflawni, er mwyn cyd-fynd â'r anghenion hynny, gan roi ystyriaeth arbennig i'r cyfleoedd er mwyn cysylltu gyda rhaglen Dechrau'n Deg er enghraifft.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o gontinwm cymorth sy'n cynnwys ystod eang o anghenion, fel y mae diagram isod yr Enfys yn dangos.

Mae canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar yn un o ofynion allweddol Teuluoedd yn Gyntaf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru - atal a diogelu - yn hytrach na phen adferol y sbectrwm angen. Mae modd i ymyriadau ar ben hwn y sbectrwm leihau'r angen rhag cynyddu yn nes ymlaen.



TAT - Tîm o Amgylch y Teulu

JAFF - Fframwaith Asesu'r Teulu
ar y Cyd



Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)

Mae dull gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru, y mae'n rhaid i bob awdurdod ei weithredu fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae TAF yn broses newydd sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau y maent wedi'u seilio ar anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd. Er mwyn gwella'r canlyniadau i blant, rydym yn cydnabod bod angen i ni wella'r canlyniadau i deuluoedd.

Mae modd i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol dreulio cryn dipyn o amser yn rhedeg mewn cylchoedd wrth geisio dod o hyd i'r gwasanaeth cywir i blentyn neu deulu. Mae dull gweithredu TAF yn disgwyl i wasanaethau 'gyfuno' o gwmpas teuluoedd. Rydym yn cychwyn gyda'r egwyddor y dylem fod yn ceisio sicrhau bod proses TAF a'r ymyriadau a ddarparir yn rhai 'pwrpasol' i anghenion y teulu.

Proses TAF Ceredigion - Rheoli a Chydlynu

Rheolwr - Billy Goodfellow, Rheolwr Cymorth i Deuluoedd

- **Cydlynnydd TAF (Gogledd) - Mari Jefferis**
- **Cydlynnydd TAF (Canol) - Nerys Jones**
- **Cydlynnydd TAF (De) - Jess Owen**
- **Cydlynnydd anabledd TAF - Ruth James**

Mae Ruth yn gweithio ar draws y sir gyfan, mewn achosion lle y gwelir mai'r angen a gyflwynir yw diagnosis sy'n dod i'r amlwg ar gyfer plentyn neu oedi datblygiadol. Mae hi'n gweithio i Fwrdd Iechyd Hywel Dda a'i rheolwyr llinell yw staff Hywel Dda.

Manylion cyswllt tîm TAT



01545 572649 / 01970 627016



TAF@ceredigion.gov.uk

Byddai cais am wasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn briodol:

- pan geir pryder am gynnydd neu les plentyn neu berson ifanc
- pan fo'r anghenion yn aneglur ac yn ehangach nag y mae modd i un gwasanaeth ddelio â nhw
- pan fyddai asesiad o'r teulu cyfan yn helpu i nodi'r anghenion, gan dynnu gwasanaethau eraill i mewn i'w helpu

Er mwyn manteisio ar broses Tîm o amgylch y Teulu, rhaid llenwi ffurflen 'Cais am wasanaeth TAF', ac mae hon yn cynnwys asesiad o Gryfderau ac Anghenion y teulu.

Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd - (JAFF)

Un o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yw datblygiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF), sy'n cefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig tuag at asesu. Ar hyn o bryd, cyflwynwyd JAFF yng Ngheredigion fel llwybr cyfeirio er mwyn galluogi teuluoedd a'u gweithwyr i wneud cais am wasanaeth Tîm o amgylch y Teulu, fel y disgrifiwyd ar y dudalen flaenorol.

Mae modd i unrhyw un sy'n gweithio gyda'r plentyn, y person ifanc neu'r teulu gynnal asesiad teuluol; mae'r broses yn eglur, yn gynhwysfawr ac yn syml. Mae modd lawrlwytho'r pecyn cymorth asesu o wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac mae hyfforddiant ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae JAFF yn defnyddio system 'dywydd' er mwyn asesu cryfder ac anghenion teulu ar raddfa o 1-5



Mae'r teulu wrth wraidd y broses asesu a cheir holiadur hunanasesu hygyrch er mwyn cynorthwyo teuluoedd a phobl ifanc i ddechrau nodi eu hanghenion. Ni ddylai teuluoedd fyth gael ffurflen JAFF a chael cais i'w llenwi, y nod yw bod y teulu a'r ymarferwr yn cydweithio i ystyried a nodi natur a lefel angen y teulu a chryfderau'r teulu.

Bydd yr asesiad yn cynorthwyo datblygiad Cynllun Gweithredu ar gyfer y Teulu ar gyfer ymyrraeth am gyfnod penodedig, a bydd hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Rhennir yr asesiad gydag ymarferwyr eraill a dylai'r teulu fod yn ymwybodol o hyn pan fyddant yn llofnodi eu bod yn rhoi eu caniatâd.

Ar ôl cwblhau Asesiad Teuluol, dylid cytuno arno, dylai gael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr aseswr, yn ogystal â'r rhiant/gofalwr. Dylai'r plentyn neu'r person ifanc ei lofnodi hefyd os yw eu hoedran yn golygu ei bod yn briodol iddynt wneud hynny.

Defnyddir y system sgorio yn JAFF er mwyn mesur effaith proses TAF, a chaiff y sgoriau eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod proses TAF, a'r disgwyliad yw y byddant yn gostwng yn raddol yn ystod y broses. Ni nodir manylion personol ar y canlyniadau, ac fe'u hadroddir i Lywodraeth Cymru.

Mae modd lawrlwytho'r pecyn cymorth asesu i deuluoedd, ynghyd â manylion yr hyfforddiant, trwy droi at

<http://fis.ceredigion.gov.uk/cy/index.php/tim-o-amgylch-y-teulupro/>

Mae modd cael cyngor pellach am TAF neu JAFF gan dîm TAF

 01545 572649 / 01970 627016

 TAF@ceredigion.gov.uk

Trosolwg o'r Pecynnau Gwasanaeth



Trosolwg o'r Pecynnau Gwasanaeth

Caiff proses TAF ei chynorthwyo gan y tri Phecyn Gwasanaeth canlynol.



Cymorth i Deuluoedd

Mae'r pecyn hwn ar gyfer teuluoedd sy'n cynnwys plant 0-19 oed, lle y mae angen iddynt gael cymorth ychwanegol er mwyn ymgysylltu gyda gwasanaethau cyffredinol mewn ffordd effeithiol. Mae'r cymorth a ddarparir yn bwrpasol i anghenion y teulu ac mae'n canolbwyntio ar eu cryfderau er mwyn eu grymuso i sicrhau datrysiadau.



Gwybodaeth a Chyfathrebu

Diben y pecyn hwn yw sicrhau bod gwasanaethau sy'n darparu cymorth i deuluoedd yng Ngheredigion yn cyfathrebu'n dda, gyda'i gilydd a gyda'r teuluoedd hynny sy'n eu defnyddio. Mae'n bwysig ein bod yn clywed ac yn parchu safbwyntiau'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas i'r diben.



Gwasanaethau Cynhwysol

Rydym yn cydnabod bod modd i deuluoedd sy'n gallu manteisio ar wasanaethau lleol, yn eu cymuned eu hunain, greu rhwydweithiau cymorth cryfach. Mae'r cyfle i chwarae, i ddysgu ac i gymdeithasu gyda'ch ffrindiau yn bwysig, ond mae diffyg arian neu anghenion ychwanegol yn gallu golygu bod hyn yn anodd. Mae'n pecyn Gwasanaethau Cynhwysol yn cynorthwyo plant gydag anghenion amrywiol i fanteisio ar wasanaethau lleol.

Pecyn Cymorth i Deuluoedd



Pecyn Cymorth i Deuluoedd

Mae'r pecyn hwn ar gyfer teuluoedd sy'n cynnwys plant 0-19 oed, lle y mae angen iddynt gael cymorth ychwanegol er mwyn ymgysylltu gyda gwasanaethau cyffredinol mewn ffordd effeithiol. Mae'r cymorth a ddarparir yn bwrpasol i anghenion y teulu ac mae'n canolbwyntio ar eu cryfderau er mwyn eu grymuso i sicrhau datrysiadau.

Mae'r pecyn yn cyfuno Cymorth i Deuluoedd wedi'i Dargedu, Cymorth i Deuluoedd wedi'i seilio ar Leoliad, ac Allgymorth i Deuluoedd fel bod modd i deuluoedd fanteisio ar y cymorth y bydd angen iddynt ei gael.



Cymorth i Deuluoedd wedi'i dargedu - Tîm Cymorth i Deuluoedd

Mae'r tîm yn gweithio gyda theuluoedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar nodau ac am gyfnod penodedig ar draws y sir gyfan. Maent yn darparu ymyriadau rianta pwrpasol a chymorth un i un, gan gynnwys cymorth ymarferol er mwyn helpu i atal y sefyllfa rhag gwaethgu, fel bod angen gwasanaethau statudol arnynt. Mae'r tîm yn cynnwys 5 Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd, Ymwelydd Iechyd arbenigol a Gweithiwr Cymdeithasol. Cyflawnir y gwaith gan Tîm Teulu.

Cymorth i Deuluoedd wedi'i dargedu - Rhaglen Bresenoldeb Ataliol

Mae'r rhaglen hon yn gweithio gydag ysgolion a theuluoedd (sy'n cynnwys plant 5-16 oed) er mwyn rhoi sylw i broblemau presenoldeb cyn iddynt waethgu i lefelau a fydd yn gofyn am ymyrraeth statudol. Darparir rhaglen gymorth, a fydd yn un pwrpasol ar gyfer anghenion yr ysgol a'r teulu, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol. Cyflawnir y gwaith gan y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.



Cymorth i Deuluoedd



Cymorth i Deuluoedd wedi'i Dargedu - Cymorth i Ofalwyr Ifanc

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i blant a phobl ifanc (8-18 oed) y maent yn darparu gofal di-dâl i aelod o'u teulu. Ei nod yw lleihau teimladau o arwahanrwydd ac unigrwydd ymhlith gofalwyr ifanc ac atal teuluoedd rhag chwalu. Cyflawnir y gwaith gan y Groes Goch Brydeinig.

Cymorth i Deuluoedd wedi'i Dargedu - Clybiau Pyramid

Mae clybiau Pyramid yn cynnig ymyrraeth gynnar ar gyfer plant tawel, swil neu ofidus. Cynigir 'archwiliad iechyd emosiynol' ar draws y flwyddyn gyfan mewn ysgol gynradd. Cynhelir cyfarfod aml-asiantaeth i drafod y canlyniadau. Dewisir 10 o blant a chynigir lle iddynt mewn clwb Pyramid. Cynhelir y clybiau ar ôl ysgol am 1½ awr bob wythnos am 10 wythnos. Cyflawnir y gwaith gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion.



Cymorth i Deuluoedd wedi'i Seilio ar Leoliad - Rhwydwaith y Canolfannau Teuluoedd

Mae Canolfannau Teuluoedd yn cynorthwyo teuluoedd sy'n cynnwys plant 0-4 oed (a'u brodyr a'u chwiorydd dan 11 oed yn ystod y gwyliau ysgol), yn enwedig y rhai y maent yn agored i niwed. Nod Canolfannau Teuluoedd yw cryfhau a chynorthwyo sgiliau teuluoedd, meithrin eu cadernid a gwella'r dynameg a'r perthnasoedd o fewn teuluoedd. Caiff y gwasanaeth ei hwyluso gan Blant Dewi a'i ddarparu yn rhwydwaith Ceredigion o Ganolfannau Teuluoedd.

Cymorth i Deuluoedd

Cymorth i Deuluoedd wedi'i Seilio ar Leoliad - Canolfannau Plant Integredig

Mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo datblygiad Canolfannau Plant Integredig (CPI) yng Ngheredigion - menter ar y cyd rhwng cymunedau lleol, y sector gwirfoddol, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ceir 3 CPI yn y sir - Canolfan Enfys Teifi (Aberteifi), Tŷ Tysul (Llandysul) a'r Eos (Penparcau). Maent yn gweithio ar sail yr egwyddor bod modd i ni wella'r canlyniadau i deuluoedd trwy gydweithio mewn ffordd effeithiol.



Allgymorth i Deuluoedd - Home Start

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cymorth, cyfeillgarwch a chynghor ymarferol i deuluoedd sy'n cynnwys plant 0-10 oed, yn eu cartref eu hunain. Caiff gwirfoddolwyr eu hyfforddi i ymweld â theuluoedd sy'n cael anawsterau, ac i weithio gyda nhw er mwyn datblygu'r sgiliau a'r mecanweithiau ymdopi i reoli eu sefyllfaoedd eu hunain mewn ffordd effeithiol. Mae Home Start yn ffordd arbennig o effeithiol o gynorthwyo teuluoedd mewn sir wledig fel Ceredigion.



Manylion Cyswllt.....

Tîm Teulu	Billy Goodfellow	01545 572649	timteulu@ceredigion.gov.uk
Rhaglen Bresenoldeb Ataliol	Stuart Bradley	01970 633619	stuart.bradley@ceredigion.gov.uk
Cefnogaeth i Gofalwyr Ifanc	Nicola Crossman	01545 572637	NCrossman@redcross.org.uk
Clybiau Pyramid	Helen Llewellyn	07581 035817	helen.llewelyn@ceredigion.gov.uk
Rhwydwaith y Canolfannau Teuluoedd	Catrin Evans	01267 221551	catrin@plantdewi.co.uk
Canolfannau Plant Integredig	Cathryn Morgan	01545 574186	cathryn.morgan@ceredigion.gov.uk
Homestart	Sharon Morris	01545 571317	homestartaberaeron@gmail.com

Pecyn Gwybodaeth a Chyfathrebu



Pecyn Gwybodaeth a Chyfathrebu

Diben y pecyn hwn yw sicrhau bod gwasanaethau sy'n darparu cymorth i deuluoedd yng Ngheredigion yn cyfathrebu'n dda, gyda'i gilydd a gyda'r teuluoedd hynny sy'n eu defnyddio. Mae'n bwysig ein bod yn clywed ac yn parchu safbwyntiau'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas i'r diben.



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Ceredigion
Family Information Service

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)

Mae GGD yn darparu gwybodaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd ac ar gyfer y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Rhennir gwybodaeth trwy gyfrwng negeseuon e-bost, dros y ffôn a dros y rhyngrwyd, yn ogystal â thrwy gyfrwng stondinau gwybodaeth a chyflwyniadau mewn digwyddiadau. Y nod yw cynnig lleoliad canolog lle y bydd modd i wybodaeth lifo.

Llais Rhieni - Cyfranogi Rhieni

Mae Llais Rhieni yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer mamau, tadau a gofalwyr plant a phobl ifanc o bob oed a gallu, er mwyn iddynt gael effaith ar y gwasanaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae Llais Rhieni yn darparu gofal plant am ddim, costau teithio a lluniaeth/cinio. Bydd aelodau Llais Rhieni yn eistedd ar baneli cyfweld er mwyn cynrychioli safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth wrth benodi gweithwyr newydd. Caiff y grŵp ei hwyluso gan Blant Dewi.



Manylion Cyswllt.....

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Emma Morgan	01545 574186	fis@ceredigion.gov.uk
Llais Rhieni	Catrin Evans	01267 221551	catrin@plantdewi.co.uk

Pecyn Gwasanaethau Cynhwysol



Pecyn Gwasanaethau Cynhwysol

Rydym yn cydnabod bod modd i deuluoedd sy'n gallu manteisio ar wasanaethau lleol, yn eu cymuned eu hunain, greu rhwydweithiau cymorth cryfach. Mae'r cyfle i chwarae, i ddysgu ac i gymdeithasu gyda'ch ffrindiau yn bwysig, ond mae diffyg arian neu anghenion ychwanegol yn gallu golygu bod hyn yn anodd. Mae'n pecyn Gwasanaethau Cynhwysol yn cynorthwyo plant gydag anghenion amrywiol i fanteisio ar wasanaethau lleol. Mae'r pecyn yn darparu sesiynau chwarae i blant 5 oed a throsodd yn ein pedair cymuned mwyaf difreintiedig; cynlluniau chwarae arbenigol ar gyfer plant y mae ganddynt anghenion cymhleth a chymorth ar gyfer plant y mae ganddynt anghenion ychwanegol/ anabledau, er mwyn iddynt allu mynychu darpariaeth y brif ffrwd.




Gwasanaeth Chwarae Mynediad Agored

Darparir sesiynau misol mewn ardaloedd dethol ar gyfer plant 5 oed a throsodd. Bydd gweithwyr chwarae yn teithio i leoliad cymunedol mewn fan llawn offer chwarae, a bydd modd i'r plant fynd a dod fel y byddant yn dymuno. Mae Chwarae Mynediad Agored yn gallu dwyn cymunedau ynghyd a gwella datblygiad cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc. Cyflawnir y gwaith gan RAY Ceredigion.

Gwasanaeth Chwarae Arbenigol

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc y mae ganddynt anabledau a/ neu anghenion ychwanegol i fanteisio ar gynlluniau chwarae arbenigol neu leoliadau prif ffrwd. Mae modd gwneud cyfeiriadau am gymorth er mwyn sicrhau bod modd i'r **holl** blant 4-11 oed fynychu clwb y tu allan i oriau ysgol, cynllun chwarae yn ystod y gwyliau neu sesiwn chwarae. Yn ogystal, mae modd gwneud cyfeiriadau i blant fynychu gweithgarwch hamdden neu weithgarwch chwarae arbenigol. Cyflawnir y gwaith gan DASH ac fe'i ariannir ar y cyd gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Theuluoedd yn Gyntaf.



Pecyn Gwasanaethau Cynhwysol

Cynllun Cyfeirio



Ariannir y cynllun ar y cyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Caiff cyfeiriadau eu gwneud gan weithwyr proffesiynol neu staff lleoliadau cyn ysgol cymeradwy er mwyn darparu cymorth a fydd yn galluogi plentyn y mae ganddynt anabledd a/neu anghenion ychwanegol i fynychu'r lleoliad hwnnw am 10 awr yr wythnos. Caiff cyfeiriadau eu hasesu gan banel aml-asiantaeth. Cyflawnir y gwaith gan Fudiad Meithrin.

Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Iaith a Lleferydd

Ariannir y gwasanaeth arbenigol hwn ar y cyd gan Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Caiff yr holl fabanod eu sgrinio am ddatblygiad iaith a lleferydd. Cynigir cyngor, hyfforddiant a chymorth yn y cartref ac mewn lleoliadau lleol i blant cyn ysgol sy'n methu'r prawf sgrinio, a'u teuluoedd, er mwyn eu galluogi i ddatblygu sgiliau iaith a lleferydd eu plant. Bydd staff y Ganolfan Deuluoedd a Dechrau'n Deg yn cael cyngor rheolaidd hefyd. Cyflawnir y gwaith gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.



Manylion Cyswllt.....

RAY Ceredigion	Gill Byrne	01545 570686	gill.byrne@btconnect.com
DASH	Jo Kennaugh	01545 570951	do@dashceredigion.org.uk
Cynllun Cyfeirio	Eirwen Hughes	07800 540239	eirwen.hughes@meithrin.co.uk
Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Iaith a Lleferydd	Kate Ames	01239 612214 ext 368	Kate.Ames@wales.nhs.uk
	Manon Richards		Manon.HafRichards@wales.nhs.uk

Ffyrdd Newydd o Weithio



Ymgorffori Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth

Y weledigaeth ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yw y dylai cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan fwy annatod o bob gwasanaeth,. Mae modd i gyfranogiad gweithredol defnyddwyr gwasanaeth gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau mewn ffordd sylweddol. Yn ogystal, mae'n helpu i:

- ♦ Sicrhau bod gwasanaethau yn berthnasol i anghenion lleol
- ♦ Sicrhau bod gwasanaethau yn atebol i ddefnyddwyr gwasanaeth
- ♦ Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i leisio'u barn am wasanaethau ac i nodi arfer da a meysydd sy'n peri pryder
- ♦ Hwyluso gweithgarwch ymgynghori ynghylch newidiadau neu ddatblygiadau yn y dyfodol

Mae Llais Rhieni yn grŵp ffocws penodol sy'n helpu i gyflawni'r gofyniad hwn. Mae Fforwm Ieuencid Ceredigion a grŵp 'Give Us Support (GUS)' yn helpu i gyflawni'r gofyniad hwn ar gyfer pobl ifanc. Mae modd i Swyddog Cyfranogi Ceredigion gynorthwyo a chynghori ymarferwyr hefyd, er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais.

Mae modd i'r holl wasanaethau yng Ngheredigion ymgynghori gyda'r grwpiau hyn er mwyn cael adborth am eu gwasanaeth neu help i ddatblygu'r gwasanaeth, ond dylai'r dull gweithredu hwn gyd-fynd ag ymgynghoriadau mewnol gyda defnyddwyr gwasanaethau bob amser.

Dulliau Gweithredu wedi'u seilio ar Gryfderau

Mae dulliau gweithredu wedi'u seilio ar gryfderau yn cychwyn o ddealltwriaeth bod teuluoedd yn meddu ar gryfderau a'r gred mai datblygu'r cryfderau hynny yw'r ffordd orau o'u helpu i ffynnu, yn hytrach na mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar y diffyg, sy'n nodi anghenion yn unig.

- ♦ Mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau yn gwerthfawrogi capasiti, sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau a'r potensial o fewn cymunedau ac unigolion
- ♦ Nid yw canolbwyntio ar gryfderau yn golygu anwybyddu problemau ac anawsterau
- ♦ Rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio fel hyn gydweithio - gan helpu pobl i wneud pethau dros eu hunain. Fel hyn, bydd modd i bobl gydgyhyrchu cymorth, nid cyflawni rôl defnyddwyr goddefol cymorth

Un o amcanion Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngheredigion yw ymgorffori dulliau gweithredu wedi'u seilio ar gryfderau ar draws yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd. Dull gweithredu nad yw'n canolbwyntio ar gryfderau'r rhiant neu'r gofalwr yn unig, ond hefyd, ar yr asedau sydd ar gael yn y teulu estynedig ehangach a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn golygu ystyried adnoddau a chysylltiadau carennydd teulu, nid yn unig o fewn y teulu agos, ond hefyd, trwy gyfrwng cyswllt gweithredol y ddau riant, y teulu estynedig, a systemau cymorth naturiol y teulu.

Cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill



Cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill

Dechrau'n Deg



Mae **Dechrau'n Deg** yn rhaglen ar gyfer teuluoedd sy'n cynnwys plant 0-3 oed; mae'n targedu ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae'r rhaglen yn cynnwys gofal plant am ddim, cymorth rhianta, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd a chymorth ar gyfer llythrennedd cynnar.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai Teuluoedd yn Gyntaf gysylltu gyda rhaglen Dechrau'n Deg mewn ffordd ddi-dor. Mae Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf Ceredigion a Rheolwr Dechrau'n Deg yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i deuluoedd yng Ngheredigion.

Caiff rhai o Wasanaethau Cymorth i Deuluoedd Ceredigion eu comisiynu mewn partneriaeth gan Ddechrau'n Deg a Chymorth i Deuluoedd, ac mae hyn yn golygu, er bod teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael cymorth mwy dwys ac arbenigol, bod modd i deuluoedd y byddent yn cael budd gan gymorth tebyg, ond nad ydynt yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, fanteisio arnynt trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.


Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)

Mae IFSS yn wasanaeth statudol a dargedir, ac sy'n rhan o ystod ehangach y gwasanaethau cymorth a ddarparir ar gyfer teuluoedd difreintiedig y mae ganddynt anghenion cymhleth. Mae tîm IFSS yn cynnwys arbenigwyr o fyd iechyd a gwaith cymdeithasol, sy'n darparu cymorth dwys i blant a theuluoedd y maent yn cael eu heffeithio gan rieni yn camddefnyddio sylweddau, lle y gwelir lefel o risg neu bryder ynghylch lles y plentyn.

Prif nod IFSS yw gweithio er mwyn grymuso teuluoedd i gymryd camau cadarnhaol i wella'u bywydau, trwy gytuno ar nodau ar gyfer y teulu a chynlluniau diogelwch ar gyfer y teulu. Yn ogystal, bydd y tîm yn gweithio gyda darpar rieni y mae ganddynt ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol. Mae Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFST) yn darparu hyfforddiant i Dîm o Amgylch y Teulu ac aelodau eraill y gweithlu ynghylch amrediad o dechnegau e.e. cyfweld cymhellol a dulliau gweithredu wedi'u seilio ar gryfderau. Mae hyn yn creu dealltwriaeth gyffredin ynghylch y ffordd orau o ddarparu cymorth i deuluoedd.

Ar lefel strategol, bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Consortiwm Teuluoedd yn Gyntaf Rhanbarthol a Bwrdd IFSS.

Llywodraethu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf



Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn monitro rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf trwy gyfrwng y Grŵp Gweithredol dros Blant a Phobl Ifanc. Mae'r system hon yn sicrhau ymrwymiad gan reolwyr a swyddogion gweithredol tuag at y rhaglen.

Yn ogystal, caiff cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-2014 ei fonitro fel hyn, gan gysylltu'r gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Ngheredigion.

Consortiwm Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'n Consortiwm Teuluoedd yn Gyntaf Lleol yn cynnwys Cyngorau Sir Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ynghyd â chynrychiolaeth o'r Cyngorau Gwasanaethau Gwirfoddol.

Mae aelodau'r consortiwm yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cynnal trosolwg rhanbarthol o Raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ein hardal, ac er mwyn rhannu'r dysgu am ein gwasanaethau.

Cynhelir Setiau Dysgu Gweithredu yn rheolaidd er mwyn rhannu dysgu dan y themâu canlynol:

- ♦ Anabledd
- ♦ TAF/JAFF
- ♦ Comisiynu Strategol sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau

Mae'r holl Awdurdodau Lleol sy'n aelodau o'r Consortiwm wedi ymrwymo swm bach o'u grant Teuluoedd yn Gyntaf i bot canolog er mwyn ariannu gwaith y Consortiwm. Yn ystod 2013/14, bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn talu am y gwaith o hwyluso Setiau Dysgu Gweithredu gan ymgynghorydd allanol (o Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes) ac er mwyn talu'r gost o ddatblygu'r gweithlu ar lefel ranbarthol.

Gweithio ar Draws Ffiniau

Mae Ceredigion yn rhannu ffiniau gyda Sir Gâr, Powys a Sir Benfro, ac mae'n bwysig bod teuluoedd sy'n byw gerllaw'r ffiniau hyn yn cael gwasanaeth teg. Ceir achosion lle y gallai teulu fod yn cael nifer o wasanaethau gan ddau Awdurdod Lleol cyfagos.

Mae'n anodd sicrhau datrysiad penodol ar gyfer pob sefyllfa bosibl, ac mae'r Consortiwm wedi cynnig set o egwyddorion fel man cychwyn er mwyn cynnal trafodaethau ynghylch darparu gwasanaethau ar draws ffiniau siroedd.

- ♦ Rhaid i unrhyw benderfyniad(au) ynghylch materion trawsffiniol ganolbwyntio ar y teulu
- ♦ Dylai'r penderfyniad(au) ddefnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau
- ♦ Dylai'r penderfyniad(au) ystyried a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth
- ♦ Dylai'r awdurdod lle y mae'r plentyn byw fod yn gyfrifol a dylai'r trafodaethau gychwyn o'r pwynt hwn

Mae hwn yn ddarn o waith newydd, ac awgrymir mai'r cam nesaf ddylai fod i ystyried rhai materion trawsffiniol allweddol y mae'n debygol y bydd angen gwneud penderfyniad amdanynt - nodi ac ystyried sefyllfaoedd a datblygu enghreifftiau o arfer da.

Rhannu Gwybodaeth

Mae gwybodaeth yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol. Mae amharodrwydd i rannu gwybodaeth, hyd yn oed mewn amgylchiadau pan ei bod yn amlwg bod hynny'n briodol, yn her i'r holl wasanaethau cyhoeddus ac mae angen mynd i'r afael â hyn gyda'n gilydd.

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn darparu fframwaith i sefydliadau sy'n ymwneud â diogelu, amddiffyn, iechyd, addysg a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru (gan gynnwys sefydliadau statudol, sefydliadau preifat a sefydliadau o'r trydydd sector). Yn arbennig, mae'n ymwneud â'r sefydliadau hynny sy'n cadw gwybodaeth am unigolion ac y gallent farnu ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth honno gydag eraill mewn ffordd gyfreithlon a deallus.

Mae Fframwaith WASPI yn cynnwys:

1. y Cytundeb - set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol yn unol â nhw
2. y Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) - sy'n diffinio'r prosesau lle y bydd modd cyfnewid, monitro a rheoli gwybodaeth ar gyfer gwasanaeth neu swyddogaeth benodol

Mae ISP yn cael ei ddatblygu, yn unol â chanllawiau WASPI, er mwyn hwyluso proses Tîm o amgylch y Teulu ar lefel ranbarthol.

Dangosyddion Poblogaeth Teuluoedd yn Gyntaf

Bydd Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynorthwyo i gyflawni pedwar canlyniad ar lefel uchel, a fesurir gan set o Ddangosyddion Poblogaeth, fel y dangosir isod.

Canlyniad 1 - Pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel yn sicrhau cyflogaeth ac yn sicrhau cynnydd o fewn cyflogaeth

- ♦ Cyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n cael budd-daliadau ar gyfer y rhai heb waith (prawf modd) neu sy'n cael credydau treth lle y mae eu hincwm cofnodedig yn llai na 60% o'r incwm canolrifol.
- ♦ Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant
- ♦ Cyfran y bobl ifanc 18 - 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

Canlyniad 2 - Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd y maent yn byw mewn sefyllfa o dlodi neu y maent mewn perygl o fyw mewn sefyllfa o dlodi, yn gwireddu eu potensial

- ♦ Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n sicrhau Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (mewn asesiadau athrawon) o'i chymharu gyda chanran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- ♦ Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n sicrhau'r Dangosydd Pwnc Craidd yn CA2, o'i chymharu gyda chanran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- ♦ Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n sicrhau trothwy Lefel 2, gan gynnwys A*-C TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, ar ddiwedd CA4 o'i chymharu gyda chanran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- ♦ Canran y sesiynau hanner diwrnod (absenoldeb cyffredinol) y bydd disgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion cynradd a gynhelir ac y maent yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn eu colli, o'i chymharu gyda chanran y disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
- ♦ Canran y sesiynau hanner diwrnod (absenoldeb cyffredinol) y bydd disgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion uwchradd a gynhelir ac y maent yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn eu colli, o'i chymharu gyda chanran y disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Canlyniad 3 - Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles

- ♦ Canran y plant y byddant wedi cael eu himiwneiddio'n llawn erbyn eu pen-blwydd yn 4 oed
- ♦ Canran y genedigaethau byw lle y mae'r pwysau geni dan 2500g
- ♦ Nifer y merched dan 16 oed sy'n beichiogi fesul 1000 o breswylwyr benywaidd rhwng 13 ac 15 oed.
- ♦ Cyfran y plant mewn dosbarthiadau derbyn sydd dros bwysau neu'n ordew

Canlyniad 4 - Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin, yn gryf ac yn ddiogel

- ♦ Nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys plant dibynnol y derbynnir eu bod yn gymwys, yn ddigartref mewn ffordd anfwriadol ac y maent mewn angen blaenoriaethol.
- ♦ Nifer yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod
- ♦ Plant mewn angen yn ôl capasiti y rhieni (cam-drin domestig)
- ♦ Newydd-ddyfodiaid i Dimau Troseddau Ieuencid (ffynhonnell: data gweinyddol a gesglir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid)

Cysylltwch â Theuluoedd yn Gyntaf

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau
cyffredinol am raglen Teuluoedd yn Gyntaf,
cysylltwch â Cathryn Morgan



cathryn.morgan@ceredigion.gov.uk



01545 574186

